

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	22 Mawrth 2016
PWNC	Technoleg Gwybodaeth i Aelodau Etholedig
PWRPAS	Cyflwyno diweddariad ar faterion technoleg gwybodaeth i'r Pwyllgor.
AWDURON	Arwel Ellis Jones Uwch Reolwr (Democratiaeth a Chyflawni) Huw Ynyr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth
SWYDDOG PERTHNASOL	Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. Trafodwyd nifer o elfennau yn ymwneud â Thechnoleg Gwybodaeth yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac isod cyflwynir diweddariad i'r Aelodau.

Hyfforddiant Llechen

2. Mae gwahoddiadau wedi eu gyrru i aelodau ddatgan diddordeb os ydynt yn dymuno hyfforddiant pellach ar sut i wneud gwell defnydd o'r iPad (yn dilyn y peilot llwyddiannus a gynhaliwyd yn 2015). Mae hyfforddiant ar lefel sylfaenol neu ar lefel uwch wedi ei gynnig, gyda nifer wedi datgan diddordeb. Mae'r sesiynau wedi eu trefnu ar gyfer
 - 22/04/2016 - sylfaenol
 - 28/04/2016 – lefel uwch

Diweddariad ar dderbyn e-bost cynghoryddxx@gwynedd.gov.uk ar declynnau cludadwy

3. Adroddodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth yn y cyfarfod diwethaf ei fod yn ceisio ymateb i'r rhwystrdigaeth yr oedd nifer o aelodau yn ei deimlo gan nad oes posibil yn gyfredol i "gysylltu" ebyst 'cynghorydd' i ffon personol aelod.
4. Rydym bellach wedi cael cadarnhad drwy drafodaethau gyda'n archwilwyr PSN/CESG y bydd yn bosib i ni gynnig gwasanaeth ble gall swyddogion ac aelodau etholedig dderbyn/gyrru e-bost swyddogol y Cyngor ar eu ffôn symudol. Mae'n amod ein bod yn gwneud hyn mewn ffordd diogel ac yn glynu at yr hyn a gytunwyd gyda'r archwilwyr.
5. Mae'r archwilwyr PSN/CESG yn fodlon i ni ddefnyddio'n meddalwedd rheoli teclynnau symudol (MDM – Mobile Device Management) ar gyfer diogelu'r gwasanaeth, sef y cynnyrch MobileIron. Mae defnyddio meddalwedd o'r math yma'n galluogi'r Desg Gymorth TG i reoli'r ffôn o bell petai angen, gan gynnwys dileu gwybodaeth oddi arno pe byddai'r perchennog yn hysbysu'r Ddesg Gymorth bod eu ffôn wedi ei golli/ddwyn. Byddwn yn defnyddio'r meddalwedd MDM i lawrlwytho "app" penodol ar gyfer e-byst y Cyngor, gan alluogi i swyddogion y Ddesg Gymorth ddileu'r "app" a'i gynnwys heb amharu ar unrhyw "apps" ac/neu ddata personol. Yn ychwanegol i'r newidiadau hyn, fe fyddai'n orfodol i'r defnyddiwr uwchraddio'u cyfrinair i safon priodol ar gyfer diogelu'r cyfarpar.

6. Fe fydd costau o £40 yn y flwyddyn gyntaf a £10 y flwyddyn wedi hyn ar gyfer y meddalwedd MDM. Cost y ddyfais yw hwn, ac felly fe fydd y cost yn codi os oes angen sefydlu'r gwasanaeth ar mwy nag un dyfais.

Paratoi at etholiadau 2017

7. Fel sydd yn cael ei adrodd yn yr adroddiad 'Etholiadau 2017', mae'n bryd cychwyn paratoi ar gyfer y cyfnod yn dilyn etholiadau 2017 yng nghyswllt darpariaeth electroneg addas. Mae'r byd yn un sy'n datblygu yn gyflwym, gyda nifer o wahanol ddyfeisiadau bellach ar y farchnad o gymharu â'r hyn oedd yn bodoli yn 2012. Bydd angen asesu beth yw/ fydd anghenion aelodau etholedig a'r Cyngor i'r dyfodol, pa ffactorau allanol all ddylanwadu, beth yw'r opsiynau ar y farchnad, a pha gyllideb sydd ar gael, er mwyn dechrau ystyried beth yw'r cyfarpar mwyaf addas i'w gynnig i aelodau yn dilyn etholiadau Mai 2017.
8. Bydd y mater yn cael sylw dros y misoedd nesaf fel bo amserlen synhwyrol mewn lle i gael penderfyniad ac archebu cyfarpar os oes angen.